# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Dechrau'n Deg Garth**

**Ysgol Gynradd Garth**
**Mission Road**
**Maesteg**
**CF34 0ND**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/01/2020

Final report

Final unpublished report

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Final unpublished report

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd gwasanaeth Dechrau'n Deg Garth ei gofrestru ym mis Medi 2016 a gall ofalu am hyd at 12 o blant fesul sesiwn. Caiff y gwasanaeth ei ariannu gan Dechrau'n Deg ac mae'n gofalu am blant rhwng dwy a thair oed. Rowenna Lee yw'r unigolyn cyfrifol a Tracy Wright yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg rhwng 9am a 11.30am a 12.30pm a 3pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 42 wythnos y flwyddyn. Y brif iaith yw Saesneg a chaiff Cymraeg achlysurol ei defnyddio.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Rhagorol |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

Final unpublished report

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae Dechrau'n Deg Garth yn wasanaeth croesawgar lle mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llwyr ag amrywiaeth dda o brofiadau chwarae. Maent yn gwneud rhai dewisiadau am eu chwarae, mae'r staff yn gwrando arnynt ac mae eu barn yn cael ei pharchu. Mae gan y plant gydberthnasau cynnes a magwrus â'r staff. Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda iawn, mae ganddynt ddiddordeb gwirioneddol yn eu barn a'u llesiant ac maent yn teilwra cymorth i ddiwallu eu hanghenion unigol. Maent yn hybu gofal a datblygiad y plant yn wych gyda gweithdrefnau effeithiol ar waith. Mae'r tîm rheoli ac arwain yn gryf ac mae'r tîm o staff yn hapus iawn ac yn llawn cymhelliant. Mae adnoddau o safon dda yn yr amgylchedd ac mae'r ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn ddeniadol.

**2. Gwelliannau**

Mae argymhellion o'r arolygiad blaenorol wedi cael eu bodloni'n llwyr gan fod yr unigolyn cyfrifol wedi gwneud y canlynol:

- Cadarnhau bod ymwadiad wedi cael ei ychwanegu at ffeiliau'r staff i ddangos y gofynnwyd am ddau eirda ar gyfer pob aelod o'r staff fel rhan o'r broses recriwtio, fel ei fod yn glir i unrhyw un sy'n edrych ar y ffeiliau bod y gwiriadau hyn wedi cael eu cynnal;
- cynnwys yr ardd ochr yn asesiad risg y safle;
- sicrhau bod ffedogau glân yn cael eu defnyddio rhwng newid cewynnau'r plant;
- diwygio polisi ymddygiad a pholisi amddiffyn plant y gwasanaeth i adlewyrchu newidiadau a sicrhau bod y manylion cyswllt yn gywir.

At hynny, mae'r gwasanaeth wedi gwneud y canlynol ers yr arolygiad diwethaf:

- Datblygu ardal chwarae yn yr awyr agored i gynnwys ardal arddio.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Yn dilyn yr arolygiad, gwnaed rhai argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad.

Final unpublished report

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn fodlon. Maent yn meithrin cydberthnasau cynnes a gofalgar ac mae ganddynt ddewis da o gyfleoedd i chwarae a dysgu. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain yn dda. Mae'r staff yn ymateb iddynt ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd ystyrlon. Gwerthfawrogir eu diddordebau yn fawr. Mae'r plant yn datblygu ac yn dod yn annibynnol yn dda; maent yn dysgu rhyngweithio a chydweithio â'i gilydd a'r staff yn briodol.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y plant gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhydd a gweithgareddau a gynlluniwyd ac maent yn mwynhau eu profiadau chwarae. Roeddent yn arbrofi gan ddefnyddio marcwyr mawr wrth dynnu llun. Roedd un plentyn yn canu *"Dab dab dab"* wrth greu ei lun, gan ddefnyddio marcwyr o liw gwahanol. Roedd y staff yn helpu'r plant pan oedd angen ac yn siarad am y lliwiau roeddent yn eu defnyddio gan eu henwi'n ddwyieithog; yna roedd y plant yn eu hailadrodd. Gwnaeth rhai o'r plant eraill greu siapiau allan o does chwarae, gan eu rholio a'u torri. Roeddent yn falch iawn o'u gwaith ac yn chwerthin a gwenu wrth iddynt ddweud wrth y staff beth roeddent wedi'i wneud. Fe'u clywsom yn dweud, "*Look a wiggly worm*" ac "*I've rolled a sausage*".

Treuliodd nifer o'r plant gryn dipyn o amser yn cael eu hysbrydoli wrth chwarae rôl yn ardal y cartref/cegin ffug. Gwnaethant actio gwahanol gymeriadau, er enghraifft, cogyddion. Gwnaethant wisgo het cogydd ac actio'n hapus, gan baratoi bwyd a'i weini i'w gilydd. Gwnaethant chwarae â theganau ac adnoddau a roddwyd iddynt, gan fwynhau chwarae gyda gorsaf dân, bws a chymeriadau byd bach yn bennaf. Cafodd rhai o'r plant afael ar lyfrau darllen gan fynd â nhw at y staff er mwyn iddynt hwy eu darllen iddynt ac roedd rhai eraill yn chwarae gyda doliau. Roeddent wir yn mwynhau canu caneuon. Roedd yr ardal chwarae synhwyraidd yn yr awyr agored yn rhoi'r cyfle i'r plant brofi natur, y tywydd, heriau newydd i ddringo, adeiladu gyda blociau plastig mawr a mwynhau yr ardal rydd i redeg ynddi, chwarae gyda mwd yn y gegin fwd a phlannu yn ardal yr ardd.

Roedd y plant yn mynegi ymdeimlad clir o ddiogelwch ac o berthyn, ac maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr oherwydd cydberthnasau cadarnhaol a chlós. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gyfarwydd â'r drefn, ac eithrio'r plant sy'n newydd. Fodd bynnag, mae pob plentyn wedi setlo'n dda ac yn cyrraedd yn hapus a gyda gwên ar eu hwyneb. Roeddent yn hongian eu cotiau a'u bagiau ar eu pegiau unigol yn hyderus, ac yn chwilio am eu llun i'w roi ar y bwrdd i ddangos eu bod yn bresennol. Roeddent yn mynd at yr ymarferwyr yn hyderus, yn sgwrsio â nhw yn hyderus, ac yn dangos anwyldeb drwy fynd atynt am faldod a'u cynnwys yn eu chwarae.

Mae rhyngweithio'r plant yn gadarnhaol, yn addas ar gyfer eu hoedran ac yn bwrpasol. Maent yn dysgu sut i ymdopi ag emosiynau, rhannu, cymryd eu tro a chwarae gyda'u cyfoedion. Roedd un plentyn yn helpu i ddosbarthu cotiau i'w grŵp o ffrindiau. Mae gan y

Final unpublished report

plant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth a hunangymorth, y maent yn eu cyflawni'n dda iawn. Mae cyfleoedd yn eu galluogi i 'roi cynnig arni', er enghraifft, roeddent yn rhoi eu cotiau eu hunain amdanynt ac yn dilyn arferion hunanofal fel golchi dwylo, mynd i'r toiled a brwsio dannedd, ac yn pilio banana yn annibynnol. Roeddent hefyd yn ceisio yfed dŵr o ficer ac yn ceisio arllwys diod i'w hunain, er eu bod yn gwlychu ar adegau. Roeddent yn fodlon mynd i ôl teganau yn annibynnol a dilyn eu diddordebau eu hunain.

Final unpublished report

## 2. Gofal a Datblygiad — Rhagorol

### Crynodeb

Mae'r staff yn gymwys iawn i ofalu am blant, yn ofalgar ac yn sylwgar; mae ganddynt wybodaeth drylwyr am eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel a hybu iechyd da. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn ymateb yn effeithiol er mwyn hybu gofal a datblygiad y plant. Maent yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd hynod o gadarnhaol ac mae pwyslais mawr ar ddathlu cyflawniadau'r plant i hybu eu hunan-barch a'u hyder. Maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau priodol er mwyn annog y plant i ddysgu drwy chwarae, ac maent yn mynd ati i asesu anghenion a dewisiadau unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn ymrwymedig ac yn ymroddedig. Maent yn cydweithio'n dda iawn fel tîm cryf. Maent yn ymwybodol iawn o ethos y gwasanaeth ac yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn hyderus; roedd hyn yn sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, gweithdrefnau setlo. Maent yn meddu ar gymwysterau addas, ac yn defnyddio eu gwybodaeth i hybu'r canlyniadau a'r llesiant gorau i'r plant yn eu gofal. Maent yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac maent wedi cwblhau hyfforddiant 'Diogelu' a 'Dyletswydd Atal'. Maent yn ymarfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac yn tynnu sylw'r rhieni ato.

Rhoddir sylw gwych i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw; mae'r gwasanaeth wedi ennill Gwobr Byrbrydau Iach Safon Aur ac mae'n gweithio tuag at gam tri yn y cynllun Gwobr Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy. Mae'r plant yn mynd ati i ddysgu am fwyta'n iach am eu bod yn defnyddio dulliau arloesol o hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd lle roedd y plant yn blasu gwahanol fwyd. Mae'r plant hefyd yn helpu i goginio ac mae cogydd arbenigol wedi ymweld â nhw ar adegau ac wedi cynnwys y plant yn y gwaith o wneud bwyd a dysgu am fwydydd gwahanol. Roedd lluniau yn eu dangos yn gwneud pizza; cawsant lawer o hwyl yn ei goginio. Mae'r staff hefyd yn cynnwys y plant yn y gwaith o dyfu planhigion, er enghraifft, mefus, llysiau a pherlysiau, ac yna mae'r plant yn eu bwyta. Mae'n weithgaredd felly sy'n hwyl i bawb dan sylw.

Roedd arferion dyddiol yn sicrhau bod cyn lleied o groesheintio â phosibl. Roedd y rhain yn cynnwys: sychu byrddau, gwisgo ffedogau a/neu fenig pan oedd angen, golchi dwylo ac arferion glanhau, cofnodi tymheredd yr oergell a glanhau teganau a chyfarpar. Mae'r staff yn cydnabod alergeddau bwyd a/neu gyflyrau meddygol y plant ac yn eu deall yn glir ac roeddent yn dilyn gweithdrefnau clir yn gyson. Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Mae'r plant yn brwsio eu dannedd fel rhan o fenter hylendid deintyddol Cynllun Gwên. At hynny, roedd eu harferion dyddiol yn sicrhau bod y plant yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff drwy chwarae dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad yn wych. Maent yn deall hoffterau a/neu anghenion ychwanegol pob plentyn. Er enghraifft, rhoi cymorth a/neu gefnogaeth ychwanegol i'r plant

Final unpublished report

fel eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu dysgu. Roeddent yn defnyddio dulliau ymddygiad cadarnhaol i atgoffa'r plant yn dyner i fod yn garedig ac i rannu. Roeddent yn eistedd ar lefel y plant ac yn rhoi amser i bob plentyn siarad am ei deimladau. Maent hefyd yn canmol y plant ar bob cyfle, sy'n annog ymddygiad cadarnhaol. Maent yn defnyddio cosbau sy'n addas ar gyfer eu datblygiad, ac yn parchu lefel dealltwriaeth ac aeddfedrwydd unigol y plant. Mae pob ymarferydd yn ymrwymedig, ymroddedig, caredig a gofalgar. Maent yn fodelau rôl gwych ac yn arwain drwy esiampl; maent yn ddigynnwrf, yn ymatebol ac yn annog y plant. Roedd y plant yn eu parchu ac yn dilyn eu hesiampl.

Ar y cyfan, mae'r staff yn ymrwymedig, yn ymroddedig ac yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Mae eu gwaith o gynllunio, olrhain, adolygu a monitro systemau ar gyfer datblygiad pob plentyn yn wych. Maent yn cymryd camau ymatebol, pwrpasol ac amserol i gefnogi pob plentyn yn eu gofal. Maent yn canolbwyntio'n benodol ar ddiddordebau, sgiliau a chyflawniadau penodol pob plentyn. Roedd y dull hwn yn annog y plant i gyflawni eu llawn botensial. Mae ganddynt gydberthynas naturiol â'r plant, sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr hyderus a gweithgar, ac maent yn trin pob plentyn fel person llawn a chyfartal sy'n gwneud i'r plant deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi'n fawr.

Cynhelir adolygiadau o gynnydd y plant yn rheolaidd, gyda systemau cymorth sy'n diwallu anghenion y plant i gyd heb effeithio ar eu dysgu a'u gallu i integreiddio. Mae cymorth o ansawdd gwych ar gael hefyd i blant sydd ag anghenion ychwanegol gan eu bod yn gwneud defnydd gwych o weithwyr proffesiynol mewn ymgynghoriad â rhieni'r plentyn. Maent yn cyfathrebu â'r teulu cyfan sy'n sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

Final unpublished report

## 3. Yr Amgylchedd Da

**Crynodeb**

Mae'r staff yn darparu amgylchedd i'r plant sy'n addas ar eu cyfer.  Mae amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn ysgogi chwilfrydedd a diddordebau'r plant. Caiff diogelwch y plant ei sicrhau drwy nodi risgiau a pheryglon a'u lleihau neu eu dileu. Mae'r adnoddau a'r dodrefn o ansawdd da iawn ac yn addas ar gyfer anghenion ac ystod oedran y plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo diogelwch y plant dan do ac yn yr awyr agored ac yn cymryd rhagofalon i atal damweiniau. Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae system bysellbad yn rhoi mynediad i'r brif fynedfa a drysau mewnol yn yr adeilad. Y tu allan, mae ffens a gât o gwmpas yr ardal chwarae ac roedd y staff yn goruchwylio'r plant yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored. Roedd cofrestrau yn nodi amseroedd cyrraedd a gadael y staff, ymwelwyr a phlant ar y safle.

Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn nodi ac yn dileu peryglon posibl i'r plant. Er enghraifft, mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn dal dŵr. Nodwyd bod hyn yn berygl posibl ac mae cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod yr ardal yn ddiogel, yn weithredol ac yn drefnus. Mae ffeil trefnus 'Iechyd a Diogelwch' yn cynnwys dogfennau o'r holl brofion a gynhaliwyd ar y safle, gan gynnwys gwres a phrofion trydanol, cadw cemegion yn ddiogel, ymarferion tân a gweithdrefnau gwagio'r adeilad i enwi ond rhai. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi'i drefnu.

Mae'r lle chwarae, y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau chwarae ac yn datblygu eu dysgu drwy chwarae. Mae'r safle yn darparu awyrgylch cynnes, ysgogol a chroesawgar lle gall y plant a'r rhieni greu ymdeimlad o berthyn. Gall y plant symud yn ddidrafferth rhwng yr ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae digon o le yn yr ardal awyr agored ar gyfer nifer y plant sy'n cael gofal. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mae'n canolbwyntio ar y plentyn ac mae wedi'i addurno'n lliwgar ac yn arddangos gwaith y plant. Mae hysbysfwrdd i'r rhieni i'w weld yn y cyntedd. Mae cynllun y lle, sydd ar un lefel, yn galluogi'r plant i fynd i bob ardal, ni waeth beth fo'u hanghenion na'u galluoedd. Mae swyddfa ar gael i gynnal sgyrsiau cyfrinachol.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o ddodrefn ar gael i'r plant sy'n addas i'w hanghenion. Mae amrywiaeth dda iawn o deganau ac adnoddau dysgu. Fodd bynnag, o dan do, dim ond teganau a chyfarpar penodol oedd ar gael i'r plant chwarae â nhw, gan fod nifer o adnoddau, teganau a chyfarpar yn cael eu storio allan o'r golwg mewn cwpwrdd.

Yn yr awyr agored, roedd y plant yn mynegi eu hunain yn gorfforol, gan ddatblygu ymwybyddiaeth o le a sut i rannu'r lle hwnnw ag eraill.  Roeddent yn creu ardaloedd

Final unpublished report

chwarae rôl, ac roedd ganddynt ardal arddio lle roeddent yn dysgu am blannu hadau a blodau ac yn dysgu am natur.

Roeddent hefyd yn mynd ar deithiau rheolaidd i'r gymuned. Roedd ymwybyddiaeth ddiwylliannol dda yn cael ei hyrwyddo drwy lyfrau, doliau a gweithgareddau a oedd yn ymwneud â digwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn. Roedd y gwaith o lanhau a gwirio teganau ac adnoddau yn ddyddiol ac yn wythnosol yn sicrhau eu haddasrwydd a'u glendid cyffredinol.

Final unpublished report

## 4. Arwain a Rheoli Da

**Crynodeb**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu'n effeithiol â'u tîm. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i fonitro a gwella'r gwasanaeth gyda diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Maent yn agored iawn, mae ganddynt bartneriaethau effeithiol a phroffesiynol ar waith gyda'r rhieni, yr ysgol, gweithwyr proffesiynol allanol a'r gymuned ehangach. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r staff i ddarparu'r canlyniadau gorau i'r plant. Maent yn darparu cymorth rheolaidd a gwerthfawr i'r staff.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, mae angen ychwanegu rhywfaint o wybodaeth er mwyn bodloni'r rheoliadau. Mae'r arweinwyr a'r staff yn cwrdd â'r rhieni yn rheolaidd i siarad am y gwasanaeth a ddarperir a datblygiad y plant. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n cael eu cadw'n drefnus; maent yn eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. Er enghraifft, mae'r polisi diogelu bellach yn cynnwys gwybodaeth am y 'Ddyletswydd Atal' o ran radicaleiddio. Roedd yr arweinwyr yn cynnal y cofnodion gofynnol mewn perthynas â gwybodaeth bersonol y plant, damweiniau, caniatâd meddygol brys, digwyddiadau a chofnodion presenoldeb. Roedd safon y gwaith cadw cofnodion a samplwyd yn dda, yn drefnus iawn ac yn hawdd cael gafael arno.

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn ymfalchïo yn y gwaith o werthuso eu gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer ei wella gan eu bod wedi datblygu system hunanwerthuso gynhwysfawr. Roedd y system hon yn cynnwys gweithredu ar adborth gan y rhieni, yn ogystal â nodi meysydd i'w gwella. Er enghraifft, roeddent wedi prynu adnoddau i'w defnyddio dan do ac yn yr awyr agored i ddatblygu cyfleoedd chwarae i gynnwys cyfarpar garddio. Mae adroddiad ar Ansawdd y Gofal ar gael i'r rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn ffordd drefnus. Maent yn defnyddio proses recriwtio effeithiol ac yn hyrwyddo datblygiad y staff drwy gyfleoedd hyfforddi rheolaidd. Gwnaeth y staff gadarnhau hyn drwy ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac yn llawn cymhelliant i roi o'u gorau. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu goruchwylio, a'u harfarnu'n flynyddol. Gwnaethant ddweud eu bod yn frwd iawn dros rannu arferion da gan fod eu syniadau, eu hawgrymiadau a'u nodau o ran datblygiad personol yn cael eu hystyried a'u cymryd o ddifrif ac y gweithredir arnynt ar bob cyfle posibl. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth recriwtio sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau proffesiynol ac agored iawn â'r rhieni ac asiantaethau allanol. Roeddent yn falch o rannu unrhyw wybodaeth berthnasol a oedd yn hyrwyddo

Final unpublished report

arferion da, ac yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith a'r ysgol. Gwelsom adborth gan y rhieni a'r gofalwyr a oedd yn canmol y gwasanaeth yn fawr gan fod 100% ohonynt wedi dweud bod eu plentyn wedi setlo yno, yn hapus, ac yn datblygu'n dda, a gwnaethant ganmol y staff am eu cefnogaeth. Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw, "*My child is very happy and settled", "staff are so wonderful",* a *"my child can't wait to come here every morning*". Roedd nifer o negeseuon Diolch gan y rheini a'r gofalwyr yn canmol y staff am ofalu am eu plentyn. Roedd holiaduron y plant yn dangos wynebau hapus a oedd yn cyfleu eu bod yn hapus yno. At hynny, mae'r staff yn gwahodd y rhieni i drafod datblygiad eu plentyn yn rheolaidd ac yn defnyddio safle ar y cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Final unpublished report

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Yn dilyn yr arolygiad hwn, gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r teganau a'r adnoddau sydd ar gael fel eu bod yn cael mwy o ddewis ac er mwyn annog chwilfrydedd y plant,
- ychwanegu gwybodaeth at y datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau

Final unpublished report

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd yn ddirybudd ar 15 Ionawr 2020 am gyfnod o tua saith awr. Gwnaeth un arolygydd ddarparu adborth i'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom gyflawni'r canlynol:

- Arsylwi ar ymarfer a'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y staff;
- darllen rhai o holiaduron y plant a'r rhieni a ddychwelwyd
- siarad â'r unigolyn cyfrifol, y person â chyfrifoldeb, y staff, rhai rhieni a'r plant;
- edrych ar amrywiaeth o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, polisïau a gweithdrefnau, cofnodion damweiniau a digwyddiadau;
- cynnal arolygiad gweledol o'r ystafelloedd a'r ardaloedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Final unpublished report

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Rowena Lee** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Tracy Wright** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **12** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **9am–11:30am a**<br>**12:30pm – 3:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **27 Ebrill 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **15 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/03/2020

Final unpublished report